

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

Chwefror 2023

1. Cyflwyniad

Ein dull ni

1. Cymerom dystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ('y Gweinidog') a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ('y Dirprwy Weinidog') yn ein cyfarfod ar 25 Ionawr 2023. Rhoddodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ymlaen llaw.

Trosolwg o'r dyraniadau

2. Disgwylir i chwyddiant gyrraedd uchafbwynt yn y flwyddyn ariannol bresennol. Yn ôl Dadansoddiad Cyllid Cymru, gall cyllideb Llywodraeth Cymru fod £800 miliwn yn is mewn termau real yn 2023-24, hyd yn oed gyda chyllid ychwanegol o Ddatganiad yr Hydref.

3. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi pwysleisio bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Fodd bynnag, dywedir ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd bod chwyddiant a methiant Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddisodli cyllid yr Undeb Ewropeaidd wedi creu heriau sylweddol i'w phortffolio.

4. Esboniwyd ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarferiad ail-flaenoriaethu i ryddhau cyllid o fewn portffolios ar gyfer ei ailddyrranu ar draws y Llywodraeth. Yr egwyddorion sy'n sail i'r ymarfer hwn oedd sicrhau cyllideb gytbwys, diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng



flaen a diogelu'r Rhaglen Lywodraethu. Aethpwyd ymlaen ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog i ddweud:

“O ganlyniad i'r ymarfer hwn, mae cynlluniau drafft y gyllideb yn adlewyrchu'r syniad o ddychwelyd arian o'r MEG Newid Hinsawdd i gronfeydd wrth gefn canolog, sef £20.025m yn 2023-24, gyda'r lleihad yn cael ei gynrychioli yng nghyllideb 2024-25.”

Costau byw

5. Roedd y Gweinidog yn cydnabod yn y papur tystiolaeth effaith y cynnydd mewn costau byw, gan ddweud:

“Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio blaenoriaethu ein cyllidebau er mwyn amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed a chynnal ein hymrwymiad i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach wrth inni baratoi ein Cyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24”.

6. Cyfeiriwyd yn y papur tystiolaeth at effaith pwysau costau byw ar “Gyrff Hyd Braich sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar ran Llywodraeth Cymru.” Esboniwyd yn y papur tystiolaeth fod y gyllideb ddrafft wedi darparu £10 miliwn yn 2023-24 a 2024-25 i “gynorthwyo gyda'r pwysau costau byw yn y meysydd mwyaf hanfodol”.

2. Newid hinsawdd

Tuag at Gymru Sero Net

7. Ym mis Mawrth 2020, cymeradwyodd y Pumed Senedd fwy o ymestyn ar gyllidebau carbon a thargedau lleihau allyriadau carbon interim ('y targed(au) interim'), yn ogystal â tharged sero net erbyn 2050 ('y targed sero net').
8. Mae Cyllideb Garbon Sero Net Cymru 2 (2021-25) Llywodraeth Cymru (Hydref 2021) ('Cymru Sero Net') yn nodi ei pholisïau a'i chynigion ar draws pob portffolio Gweinidogol i gwrdd â'r ail gyllideb garbon, ac adeiladu'r sylfeini ar gyfer Cyllideb Garbon 3, targed dros dro 2030, a'r targed sero net.
9. Mae Datganiad Terfynol Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Garbon 1 (Rhagfyr 2022) yn dangos ei bod wedi cyrraedd Cyllideb Garbon 1 a tharged interim 2020.

Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd

10. Mae cynllun 5 mlynedd addasu i'r newid yn yr hinsawdd Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd (Rhagfyr 2019) ('y cynllun addasu'), yn gosod mesurau polisi allweddol y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.¹
11. Mae adroddiad cynnydd cyntaf Llywodraeth Cymru ar y cynllun addasu (Rhagfyr 2022) yn cydnabod nad yw addasiadau yng Nghymru (nac ar draws y Deyrnas Unedig) yn ddigonol ar gyfer y risgiau sy'n deillio o newid hinsawdd.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

12. Dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor fod Llywodraeth Cymru ar y trywydd cywir i gyrraedd Cyllideb Garbon 2, ond bod Cyllideb Garbon 3 'yn heriol iawn, iawn'. Ychwanegodd y canlynol:

"...we've picked off much of the low-hanging fruit...[for example] shutting the coal-fired power stations and so on...So, we've got a significant package of investments in this budget, but we will need a huge push from across Wales—the team Wales approach that we talk about all the time, which is why we talk to all of our partners right across industry, commerce et cetera,

¹ Cafodd y cynllun addasu ei lywio gan amcanestyniadau hinsawdd UKCP18 Canolfan Hadley Swyddfa'r Met a chan ail Adroddiad Tystiolaeth Asesu Risg Newid Hinsawdd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2017

to get on this pathway because, otherwise, we're not going to make that third carbon budget. That's the bottom line really."

- 13.** Dywedodd y Gweinidog mai un o'r materion o bwys yn y gyllideb yw a oes digon yn y gyllideb i drosoli rhywfaint o fuddsoddiad preifat i mewn, ac felly y gobaith yw bod y gyllideb wedi ei strwythuro mewn ffordd sy'n caniatáu rhywfaint o drosoli.
- 14.** O ran addasu i'r hinsawdd, eglurodd swyddog y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb i gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd, wedi cymryd camau i nodi camau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a nodir yn y cynllun addasu presennol. Cadarnhaodd y bydd y cynllun addasu nesaf yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2024, gan ystyried canfyddiadau asesiad parhaus y Pwyllgor Newid Hinsawdd (a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2023).
- 15.** Dywedodd swyddog y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio mabwysiadu dull 'Tîm Cymru' yn ei gynllun addasu nesaf, er mwyn adlewyrchu nad yw'n meddu ar yr holl allu i fynd i'r afael â risg hinsawdd. Eglurodd bod meysydd lle mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n meddu ar y gallu yn bennaf. Dywedodd bod meysydd lle mae'n amlwg y bydd yn rhaid cydweithio, ac y bydd y cynllun nesaf yn cyffwrdd â hynny, mewn ffyrdd tebyg i'r hyn y ceisiwyd ei wneud drwy Cymru Sero Net.
- 16.** Ychwanegodd swyddog y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried 'safbwynt system gyfan' ac yn cynnig 'datrysiad system gyfan' er mwyn mynd i'r afael â risgiau hinsawdd.

Ein barn ni

Rydym wedi ein calonogi bod Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd nod Cyllideb Carbon 1 a tharged interim 2020, ac 'ar y trywydd iawn' i gyrraedd nod Cyllideb Carbon 2. Serch hynny, mae cyllidebau carbon yn y dyfodol a thargedau dros dro yn llawer tynnach ac, fel mae'r Gweinidog wedi cydnabod, yn fwy heriol i'w cyrraedd, yn enwedig o fewn cyd-destun cyllidebau cynyddol dynn.

Rydym yn falch, gan hynny, fod Llywodraeth Cymru wedi dewis (ar y cyfan) i ddiogelu buddsoddiad ar weithredu ar y newid yn yr hinsawdd er gwaethaf pwysau cyllidebol ar draws y llywodraeth.

Rydym yn gwybod bod disgwyl i'r sector preifat chwarae rhan ganolog wrth gyllido'r newid i sero net. Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2022-23, fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog roi esboniad cynhwysfawr o sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i drosoli buddsoddiad preifat. Rydym yn

ddiolchgar am ei hymateb. Hoffem i ddiweddariadau gael eu hymgorffori ym mhapurau tystiolaeth y Gweinidog er mwyn llywio ein gwaith craffu ar gyllidebau drafft yn y dyfodol.

Fel yr amlinellir yn ein hadroddiad ar Fil Banc Seilwaith y Deyrnas Unedig (Hydref 2022), rydym o'r farn y gallai'r Banc o bosibl chwarae rhan bwysig o ran uwchraddio a chyflymu buddsoddiadau preifat i gynorthwyo'r newid i sero net. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r Banc i ddatgloi cyfleoedd buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru.

Mae asesiad annibynnol diweddaraf y Pwyllgor Newid Hinsawdd o risg hinsawdd yn rhybudd plaen nad yw Cymru, ynghyd â gweddill y Deyrnas Unedig, wedi paratoi'n ddigonol i ddelio ag effeithiau newid hinsawdd. Nodwn bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i nodi camau gweithredu ychwanegol i wella ei chynllun addasu presennol yn sgil yr asesiad. Fodd bynnag, nid yw'n glir a wnaed newidiadau i'r dyraniadau cyllideb ar gyfer 2023-24 i adlewyrchu hyn. Hoffem i'r Gweinidog roi sylw i hyn.

Byddwn yn gwneud gwaith ar addasu i newid hinsawdd cyn diwedd 2023, wedi ei lywio gan ganfyddiadau adroddiad arfaethedig y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar gynnydd a blaenoriaethau Cymru ar gyfer y dyfodol.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog egluro a wnaed newidiadau i'r dyraniadau cyllideb ar gyfer 2023-24 i adlewyrchu'r camau addasu newid hinsawdd ychwanegol y mae'n bwriadu eu cymryd, yn dilyn asesiad diweddaraf y Pwyllgor Newid Hinsawdd o risg hinsawdd.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i gynnwys diweddariadau blynyddol ar sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i drosoli buddsoddiad preifat i gyllido'r newid i sero net. Dylid ymgorffori'r diweddariadau hyn mewn gwybodaeth a ddarperir gan y Gweinidog i'r Pwyllgor i lywio ei waith craffu ar gyllidebau drafft yn y dyfodol.

3. Ynni adnewyddadwy

17. Mae'r gyllideb ddrafft yn dangos cynnydd mewn cyllid refeniw o £8.6 miliwn yn 2022-23 i £9.6 miliwn yn 2023-24 ar gyfer y BEL 'Ynni Glân'. Mae hefyd yn dangos cynnydd mewn cyllid cyfalaf o £14.6 miliwn i £25 miliwn ar gyfer y BEL 'Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru', gyda chyllid refeniw yn aros yr un fath ar £3.9 miliwn.

18. Dyma dargedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru:

- Cymru i gynhyrchu 70 y cant o'r trydan mae'n ei ddefnyddio o ynni adnewyddadwy erbyn 2030;
- 1 GW o gapasiti trydan a gwres adnewyddadwy yng Nghymru i fod mewn perchnogaeth leol erbyn 2030;²ac
- Erbyn 2020, rhaid i brosiectau ynni newydd gynnwys o leiaf elfen o berchnogaeth leol.

19. Ar 24 Ionawr 2023, [cyhoeddodd](#) y Gweinidog ymgynghoriad ar dargedau newydd, mwy ymestynnol i Gymru.

20. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog argymhellion o archwiliad dwfn i ynni adnewyddadwy. Nod yr archwiliad dwfn oedd nodi rhwystrau o ran gwella ynni adnewyddadwy yn sylweddol, a chamau i'w goresgyn. Ym mis Rhagfyr 2022, rhoddodd y Dirprwy Weinidog ddiweddariad ar y cynnydd tuag at weithredu'r argymhellion.

21. Dywedir ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag argymhellion yr archwiliad dwfn a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb ddrafft.

22. Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd yn sefydlu datblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r cyhoedd i gyflymu'r gwaith o ddarparu ynni adnewyddadwy, drwy ddatblygu prosiectau ynni gwynt ar y tir ar ystâd coetiroedd Llywodraeth Cymru i ddechrau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd

² Yn ogystal â'r targed 1GW ar gyfer gwaith cynhyrchu sydd mewn meddiant lleol erbyn 2030, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu cynhyrchu ynni adnewyddadwy gan gyrrff cyhoeddus a mentrau cymunedol dros 100MW erbyn 2026

wedi ymrwymo i weithio tuag at greu Ynni Cymru i ehangu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a berchenogir gan y gymuned.³

23. Dywedir ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog y bydd gwaith yn ystod y tymor byr yn canolbwyntio ar gwmpas Ynni Cymru a sut bydd yr endid newydd yn cael ei sefydlu i gynorthwyo gweithredu a sut gall Ynni Cymru weithio ochr yn ochr â'r datblygwr sector cyhoeddus ar raddfa fawr newydd. Eir ymlaen i ddweud:

“Bydd y dyraniadau cyllideb yn ein galluogi i sefydlu tîm bach i ddatblygu'r cysyniad o 'datblygwr cyhoeddus Cymreig', felly nodir yn y Cytundeb Cydweithredu, ynghyd â datblygu nifer fechan o brosiectau ar gyfer Llywodraeth Cymru – sef prosiectau a fydd yn cynnig cymorth i gymunedau a chyrff cyhoeddus pan fo capasiti yn peri problemau iddynt.”

Tystiolaeth gan y Gweinidog

24. Dywedodd y Gweinidog fod cyllid i Ynni Cymru yn cael ei glustnodi o fewn BEL 'Ynni Glân'. Dyrannwyd £2 miliwn ar gyfer 2023-24 (cynnydd o'r £1 miliwn yn 2022-23) a £3 miliwn ar gyfer 2024-25. Eglurodd bod cynigion ar gyfer Ynni Cymru yn cael eu datblygu ac y byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud yn fuan.

25. Dywedodd y Gweinidog y bydd y datblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r cyhoedd yn cael ei sefydlu yr adeg hon y flwyddyn nesaf, felly mae llawer o waith i'w wneud, ac y bydd gwaith dichonoldeb ar gyfer gwahanol safleoedd i'r datblygwr yn cael ei gynnal yr un pryd. Ychwanegodd ei bod yn siomedig nad oes yr un ffordd y gall Llywodraeth Cymru fforddio'r math o fuddsoddiad sy'n angenrheidiol i adeiladu unrhyw un ohonynt. Felly, yn amlwg bydd y Llywodraeth yn chwilio am bartneriaid yn y sector preifat.

26. Wrth sôn am yr allbynnau disgwylidig o'r £10.5 miliwn o gynnydd mewn cyllid cyfalaf i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog fod hyn yn fater o geisio cael y sector cyhoeddus mewn sefyllfa well i ddatgarboneiddio erbyn 2030. Cyfeiriodd at sawl prosiect a oedd wedi elwa ar yr arian hyd yma, gan gynnwys fferm solar Ysbyty Treforys.

³ Cododd yr ymrwymiad hwn o'r [Cytundeb Cydweithio](#) rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru (Tachwedd 2021)

Ein barn ni

Yn ein hadroddiad, Ynni adnewyddadwy yng Nghymru (Mai 2022), fe wnaethom bwysleisio'r angen i Lywodraeth Cymru gynyddu a chyflymu'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy, gan gydnabod rôl ynni adnewyddadwy wrth fynd i'r afael â'r argyfwng newid yn yr hinsawdd, gwella diogelwch ynni a lleihau biliau ynni domestig. O ystyried hyn, rydym yn croesawu'r cynnydd yn y dyraniad cyllidebol i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni polisi ynni.

Mae diffyg eglurder ynghylch yr anghenion adnoddau a buddsoddi ar gyfer y datblygwr ynni adnewyddadwy newydd sy'n eiddo i'r cyhoedd, gan gynnwys a yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y dyraniadau cyllideb ar gyfer 2023-24 a'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2024-25. Hoffem i'r Gweinidog roi sylw i'r mater hwn.

Nodwn honiad y Gweinidog y bydd sicrhau buddsoddiad preifat yn hanfodol i lwyddiant y datblygwr. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am y camau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i ddenu buddsoddiad preifat ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Rydym yn edrych ymlaen at y cyhoeddiad ynglŷn ag Ynni Cymru. Sylwn bod £1 miliwn wedi ei ddyrannu y llynedd i Ynni Cymru a byddem yn croesawu dadansoddiad o wariant.

Mae cryn ansicrwydd ynghylch a fydd y sector cyhoeddus yn llwyddo i gyflawni ei uchelgais gyfunol sero net erbyn 2030. O ystyried hyn, rydym yn croesawu'r cynnydd mewn dyraniad cyfalaf ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, a gobeithiwn y bydd hynny'n arwain at gyflymu camau ar draws y sector. Mae hyn yn gynydd sylweddol mewn cyllid, o dros 70% o'i gyllideb, a byddem yn gwerthfawrogi esboniad manwl o'r hyn mae disgwyl i'r arian ychwanegol hwn ei gyflawni dros y flwyddyn nesaf, gan gynnwys cyfeirio at brosiectau neu raglenni penodol.

Rydym yn bwriadu ymgymryd â darn byr o waith ar ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus cyn diwedd haf 2023. Bydd hyn yn rhoi cyfle i archwilio'n fanylach unrhyw beth a allai fod yn atal cynnydd, gan gynnwys bylchau mewn cyllid, a sut gellir mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

Argymhellion

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog roi manylion am:

- waith a wnaed i asesu'r gost o sefydlu'r datblygwr ynni adnewyddadwy newydd sy'n eiddo i'r cyhoedd a'r costau gweithredol parhaus,
- y dyraniad cyllideb ar gyfer y datblygwr ynni adnewyddadwy ar gyfer 2023-24 a'r dyraniad dangosol ar gyfer 2024-25 (pan fydd y datblygwr yn weithredol), a'r
- camau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd, a'r camau mae'n bwriadu eu cymryd, i ddenu buddsoddiad preifat i gynorthwyo gwaith y datblygwr ynni adnewyddadwy sydd dan berchnogaeth y cyhoedd.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog roi esboniad manwl o'r hyn y disgwylir i'r dyraniad ychwanegol ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ei gyflawni.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog ddarparu dadansoddiad o sut gwariwyd y £1 miliwn a ddyrannwyd i Ynni Cymru y llynedd.

4. Datgarboneiddio cartrefi presennol Cymru

- 27.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei Rhaglen Lywodraethu i ddatgarboneiddio mwy o gartrefi drwy ôl-osod.
- 28.** Mae Cymru Sero Net yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd mesurau ôl-osod i leihau faint o wres sy'n cael ei golli wedi eu cwblhau mewn tua 148,000 o gartrefi erbyn 2025. O ran tai cymdeithasol, uchelgais Llywodraeth Cymru yw dod â'r holl dai cymdeithasol mor agos â phosibl at EPC A o fewn degawd.
- 29.** Mae'r rhan fwyaf o gymorth Llywodraeth Cymru i ôl-osod tai yn cael ei ddarparu drwy'r Rhaglen ôl-osod er mwyn optimeiddio, sy'n darparu arian grant i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol i wella effeithlonrwydd ynni eu stoc bresennol. Mae'r Rhaglen ôl-osod yn cael ei chyllido o'r BEL 'Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd'. Mae'r BEL hwn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer yr Hwb perfformiad Carbon Sero Net Tai newydd, ymhlith pethau eraill.
- 30.** Mae'r gyllideb ddrafft yn dangos £15 miliwn o ostyngiad mewn dyraniad cyfalaf (o £107 miliwn yn 2022-23 i £92 miliwn yn 2023-24) a chynnydd mewn dyraniad refeniw (o £773,000 i £2.17 miliwn) ar gyfer y BEL 'Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd'.
- 31.** Mae'r Rhaglen Cartrefi Cynnes, sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref, yn cynorthwyo gweithgarwch ôl-osod yn y sector tai preifat. Cyllidir y Rhaglen o'r BEL 'Tlodi Tanwydd', lle gwelir £5 miliwn o gynnydd mewn dyraniad cyfalaf (o £30 miliwn yn 2022-23 i £35 miliwn yn 2023-34). Mae dyraniadau refeniw yn parhau i fod yn wastad ar £4.37 miliwn.
- 32.** Nodir ym mhapur y Gweinidog y bydd datblygu dull stoc dai cyfan o ddatgarboneiddio yn darparu strategaeth hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd a datgarboneiddio ar gyfer y sector. Mae'n cyfeirio at raglen newydd, y mae disgwyl iddi gynorthwyo'r sector cymdeithasol, perchenfeddianwyr a'r sector rhentu preifat. Mae disgwyl iddi fod ar gael i bawb, gan gynnwys y rhai sydd yn y categori 'gallu talu'.

Ein barn ni

Bydd lleihau allyriadau o gartrefi Cymru drwy ôl-osod effeithlonrwydd ynni yn hollbwysig os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei hymrwymyiadau newid yn yr hinsawdd. Gyda'r ffigyrau diweddaraf yn dangos cynnydd mewn allyriadau yn y sector preswyl ar gyfer 2019-20, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i gynyddu graddfa a chyfradd gweithgarwch ôl-osod ar draws yr holl ddaliadaethau tai.

Mae gennym sawl pryder am ddyraniadau'r gyllideb i gynorthwyo'r gwaith o ôl-osod tai. Yn gyntaf, mae diffyg eglurder am gyfanswm lefel y buddsoddiad mewn gweithgareddau ôl-osod tai ar gyfer 2023-24, gan gynnwys yn y sectorau rhentu preifat a perchen-feddianwyr.

Yn ail, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn ceisio ymestyn cyrhaeddiad y Rhaglen ôl-osod wedi ei hoptimeiddio er mwyn sicrhau bod pob landlord cymdeithasol yng Nghymru yn ymgysylltu â'r Rhaglen ôl-osod dros y tair blynedd nesaf. Byddai hyn yn awgrymu'r angen am fuddsoddiad ychwanegol yn y rhaglen. Fodd bynnag, mae £15 miliwn o ostyngiad mewn dyraniad cyfalaf yn y BEL 'Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd' ar gyfer 2023-24, sy'n cyllido'r Rhaglen ôl-osod.

Yn drydydd, mewn ymateb i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2022-23, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y Rhaglen ôl-osod, ar y pryd, wedi darparu cyllid i 4,500 o gartrefi cymdeithasol. Fodd bynnag, disgwyliad Llywodraeth Cymru yw y bydd buddsoddi yn y Rhaglen ôl-osod wedi cyfrannu at daith datgarboneiddio 148,000 o gartrefi erbyn diwedd 2025. Rydym yn gofyn am eglurhad gan y Gweinidog a yw'r Rhaglen ôl-osod er mwyn optimeiddio ar y trywydd iawn i gwrdd â'r disgwyliad hwn.

Yn olaf, nid yw'n glir a yw'r gyllideb ddrafft yn cynnwys dyraniad ar gyfer y "rhaglen newydd" i ategu'r gwaith o darparu dull stoc tai cyfan o ddatgarboneiddio.

Mae'r Pwyllgor wedi cwblhau ymchwiliad yn ddiweddar i ddatgarboneiddio'r sector tai preifat a bydd yn cyhoeddi ei adroddiad cyn diwedd Chwefror 2023.

Argymhellion

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog egluro cyfanswm lefel y buddsoddiad mewn gweithgareddau ôl-osod tai ar gyfer 2023-24, gan gynnwys i gynorthwyo'r gwaith o ôl-osod yn y sectorau rhentu preifat a pherchen-feddianwyr.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog esbonio'r £15 miliwn o ostyngiad mewn dyraniad cyfalaf yn y BEL 'Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd' ar gyfer 2023-24, gan gynnwys unrhyw asesiad a wnaed o'r effaith ar gyflawni'r Rhaglen ôl-osod.

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog egluro nifer y cartrefi cymdeithasol sydd wedi elwa ar y Rhaglen ôl-osod hyd yn hyn. Dylai hefyd ddarparu manylion unrhyw asesiad a wnaed ynghylch a yw'r Rhaglen ôl-osod ar y trywydd iawn i fod wedi cyfrannu at daith datgarboneiddio 148,000 o gartrefi cymdeithasol erbyn diwedd 2025 (fel y nodir yn Sero Net Cymru).

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog egluro a yw cyllideb ddrafft 2023-24 yn cynnwys dyraniad ar gyfer y 'rhaglen newydd' i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu dull gweithredu stoc tai cyfan o ddatgarboneiddio.

5. Trafnidiaeth

33. Mae'r gyllideb ddrafft yn cydnabod y pwysau ariannol mae gweithredwyr trafniadaeth gyhoeddus yn ei wynebu, ac yn datgan bod £40 miliwn wedi ei ddyrannu i gynorthwyo gwasanaethau. Fodd bynnag, nodwyd ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog y bydd cyfanswm y cymorth refeniw i fysiau yn aros heb ei newid rhwng 2022-2023 a 2023-24.

Tlodi trafniadaeth

34. Mae tlodi trafniadaeth yn gyffredin ar draws Cymru. Dywedodd Trafnidiaeth Cymru nad oes gan 13 y cant o gartrefi Cymru fynediad at gar, a bod 25 y cant o ddefnyddwyr bysiau yn anabl neu â salwch tymor hir. Yn ôl gwaith ymchwil gan Brifysgol De Cymru, ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd a welodd y gostyngiad mwyaf o ran mynediad at wasanaethau bws yn ystod y pandemig.

35. Fe wnaeth y Dirprwy Weinidog gydnabod effaith tlodi trafniadaeth a dywedodd wrth y Pwyllgor bod yr 20 y cant o aelwydydd tlotaf yn gwario tua chwarter incwm eu haelwyd ar redeg car. Ychwanegodd fel a ganlyn:

“the Wales transport strategy is very much about achieving modal shift and supporting measures for public transport in order to tackle transport poverty.”

36. Cyhoeddwyd ymyriadau polisi i leihau cost trafniadaeth gyhoeddus mewn sawl rhan o'r Deyrnas Unedig. Anogodd adroddiad y Pwyllgor hwn ar fysiau a rheilffyrdd (Hydref 2022) gamau i fynd i'r afael â thlodi trafniadaeth, gan gynnwys drwy gymorthdaliadau ar gyfer pris teithiau. Er ei bod yn derbyn hyn mewn egwyddor, dywedodd Llywodraeth Cymru fod yn rhaid bod yn realistig o ran cyfyngiadau cyllidebol. Yn gynnar yn 2023, cyhoeddodd TrC ostyngiadau ar docynnau a chardiau rheilffordd penodol am gyfnod cyfyngedig mewn ymateb i bwysau costau byw.

37. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod pwysau ar y gyllideb gyffredinol yn golygu bod yr ymyriadau oedd ar gael i Lywodraeth Cymru yn gyfyngedig. Roedd hyn wedi ei hatal rhag gwneud rhai o'r pethau roedd eisiau eu gwneud o ddifri, yn enwedig o ran prisiau teithiau ar fws. Daeth i'r casgliad bod pethau yn cael eu cadw fel ag y maent, ond heb allu gwneud cymaint ag y buasai modd ei wneud eleni er mwyn mynd i'r afael â shifft foddol a thlodi trafniadaeth.

Seilwaith y rheilffyrdd

38. Mewn ymateb i gwestiwn am y £50 miliwn mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei gyfrannu at Crossrail Caerdydd drwy ei Chronfa Ffyniant Bro, nododd y Gweinidog fod hyn yn cael cyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Esboniodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r arian yn gyfraniad defnyddiol at brosiect llawer mwy. Fodd bynnag:

“when you put it in the context of how much money we've lost, which levelling up was meant to be replacing—circa £1 billion a year worse off, the Welsh budget, as a result of leaving the EU—it's a drop in the ocean”.

39. Ychwanegodd bod methiant Llywodraeth y Deyrnas Unedig i drydaneiddio rheilffyrdd Caerdydd a'r Cymoedd a phrif linell de Cymru i Abertawe yn addewid a dorwyd, a'n bod ni'n byw gyda chanlyniad hynny. Esboniodd fel a ganlyn:

“The new trains that we're launching at the moment are diesel trains. We don't want to be running diesel trains, but we have to run diesel trains, because there aren't electrified railway lines.”

Trafnidiaeth Cymru

40. Fe wnaeth y Dirprwy Weinidog gydnabod fod rôl TrC wedi esblygu'n sylweddol ers ei sefydlu. Disgrifiodd gam diweddaraf ei esblygiad fel 'TrC 2.0', ac eglurodd:

“It has now morphed and evolved into what we hope will be a multimodal transport delivery body that's not just doing rail, but doing bus, doing active travel, and with the potential to doing roads alongside and take a truly multimodal approach to get us to our modal shift targets.”

41. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a yw TrC yn cael digon o arian ar gyfer y cyfrifoldebau ychwanegol hyn, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog bod gofyn iddynt wneud llawer, a bydd gofyn iddynt wneud mwy, ond eu bod nhw hefyd yn cael eu cyllido.

42. Pwysleisiodd adroddiad y Pwyllgor hwn ar fysiau a rheilffyrdd (Hydref 2022) gymhlethdod y broses o osod y gyllideb ar gyfer TrC a sut mae ei gyflwyniad anrhyloyw yn gwneud craffu'n anoddach.

43. Roedd James Price, Prif Swyddog Gweithredol TrC, wedi dweud wrth y Pwyllgor yn flaenorol fod y broses gyllidebol yn cynnwys trafodaethau gydag

oddeutu 20 i 25 o ddeiliaid cyllideb gwahanol drwy Lywodraeth Cymru. Yn ei adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor y dylai manylion cyllideb TrC fod ar gael mewn da bryd fel y gall y Pwyllgor graffu ar gyllideb TrC yn ei chyfanrwydd yn ystod proses y gyllideb ddrafft.

44. Er mai sefydliad cyflawni trafndiaeth Llywodraeth Cymru yw TrC, mae Llinell Wariant yn y Gyllideb TrC yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am ei rwymedigaethau rheilffyrdd yn unig. Mae hyn yn ei gwneud yn amhosibl archwilio cyfanswm yr arian sydd ar gael i'r sefydliad cyn y cytunir ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, er gwaethaf ei rôl sylweddol a chynyddol. Er i'r Pwyllgor ofyn am gynnwys gwybodaeth am gyllideb gyfan TrC yn nogfen ddrafft y Gweinidog, nodir yn y papur tystiolaeth:

"O gofio bod Trafnidiaeth Cymru yn sefydliad cymharol newydd sy'n dal i esblygu, rydym yn mynd ati'n barhaus i chwilio am ffyrdd o symleiddio prosesau. Byddwn yn gwneud ein gorau i roi amser digonol i'r Pwyllgor graffu ar gyllidebau drafft yn y dyfodol."

45. Wrth sôn am y berthynas rhwng TrC a Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog:

"we've been fundamentally recalibrating the relationship between the Government and this portfolio and TfW...since we came into post. So, we've had a lot of extremely difficult discussions, early doors, about the relationship between us and them, and how the budget process in particular works, and who does the due diligence, for example, on various projects."

46. Daeth y Gweinidog i'r casgliad y disgwylir gwelliant o ddifri y flwyddyn nesaf wrth i'r berthynas gael ei graddnodi o'r newydd.

Datgarboneiddio trafndiaeth

47. Mae Cyllideb Garbon Sero Net Cymru 2 2021-2023 (y Cynllun Sero Net) yn cynnwys targed na fydd allyriadau drwy bibell fwg mewn 50% o fysiau a phob cerbyd tacsis a cherbydau hurio preifat erbyn 2028. Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido datgarboneiddio trafndiaeth drwy'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVTF).

48. Mae 'Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Piblinell Prosiect Rhagfyr 2022' yn cadarnhau bod y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn wedi cael tua £35 miliwn ar gyfer 2023-24 a 2024-2025. Bydd yr arian hwn yn ategu datblygu seilwaith gwefru cerbydau trydan, gan gynnwys ar gyfer tacsis,

cerbydau hurio preifat, a bysiau, yn ogystal â darparu Fflyd Werdd ar gyfer taccis, cerbydau hurio preifat, a bysiau.

49. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod gwaith yn mynd rhagddo gyda Gweinidog yr Economi i ystyried y cyfleoedd economaidd sy'n deillio o'r cyfnod pontio o fewn y degawd neu ddau nesaf at fflyd bysiau cyfan gwbl drydanol. Dywedodd:

“there's an opportunity here to make them in Wales, just as we are assembling some of the CAF trains in Wales as part of our new rail rolling stock roll-out. So, there's been a lot of work going on. We set up a special group, led by James Davies from Industry Wales, to look at how we would do this, the practicalities of it, and we've made significant progress. We're not there yet, and it's very complicated, but that's our aspiration.”

50. Dywedodd y Dirprwy Weinidog bod datgarboneiddio'r fflyd bysiau yn her i'r sector. Fel enghraifft, dywedodd:

“When you think particularly of SMEs, who provide the school market, they are typically family firms, particularly in western Wales, where their model is to buy buses at the end of their life at a relatively low cost and to do them up, because they enjoy doing them up, and that's the family business, and they run them at a very small profit and they keep them on the road. Now, they're not going to be able to do that with electric buses.”

51. Dywedodd bod masnachfreinio, mewn ffordd, yn dwysáu'r her honno i'r sector Busnesau Bach a Chanolig. Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gallai'r model masnachfreinio helpu i ddatgarboneiddio'r fflyd. Gallai hyn olygu edrych ar fodel economi sylfaenol, lle byddai TrC o bosibl yn berchen ar y bysiau ac yn eu prydlesu i'r fusnesau bach a chanolig, a fyddai wedyn yn codi ffi weithredu. Byddai'r rhain a materion eraill yn cael eu hystyried yn ystod y broses o ddiwygio bysiau.

Cyllid teithio llesol

52. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn dangos dosbarthiad cyllid teithio llesol yn 2023-24, gyda chyfanswm o £72.6 miliwn wedi ei ddyrannu. Er bod hyn yn gynydd o'r £60 miliwn a ddyrannwyd y llynedd, mae'n brin o'r cyllid a nodwyd yn y gyllideb ddangosol ar gyfer 2023-24.

53. Fe wnaeth y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-2023 ostwng y cyllid ar gyfer teithio llesol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai hyn yn ostyngiad tymor byr mewn cyllid, gyda'r lefelau uchaf erioed o gyllid teithio llesol ar gael yn 23-24 a 24-25, gydag £80 miliwn o gyllid yn y ddwy flynedd.

54. Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb y llynedd, dywedodd y Dirprwy Weinidog bod y cynnydd mewn cyllid sydd wedi ei gynllunio ar gyfer 2023-24 wedi ei ddylunio, yn fwriadol, i roi arian datblygu i awdurdodau lleol fel eu bod nhw'n gallu dechrau paratoi piblinell o gynlluniau.

55. Fodd bynnag, wrth sôn am y gostyngiad yn y dyraniad ar gyfer cyllideb ddrafft 2023-24, dywedodd y Dirprwy Weinidog mai'r rheswm am hynny oedd bod rhai cyfyngiadau o ddifri o ran capasiti a gallu ar draws llywodraeth leol, ac nad oeddent wedi gallu gwario'r holl arian roedd y Llywodraeth yn dymuno iddynt ei wario. Esboniodd fod tanwariant wedi bod dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, sydd wedi peri ambell i her. Dywedodd ei fod wedi dod i'r casgliad:

“we need a pretty deep reform to the delivery mechanisms for active travel. So, we're talking with TfW now, who haven't been doing enough on active travel. They've been focusing, as we'd ask them to, to do a grant-giving function and the monitoring, rather than development and capacity building, and there's some good work going on in Active Travel England on this that we want to work alongside and learn from.”

56. Dywedodd y Dirprwy Weinidog bod Llywodraeth Cymru yn gwario dwbl yr hyn yr oedd yn ei wario bedair blynedd yn ôl, ond nad oedd modd cynyddu'r gwariant mor gyflym ag y mae angen oherwydd y cyfyngiadau cyflawni.

Adolygu ffyrdd

57. Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft y llynedd, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r adolygiad ffyrdd yn ymchwilio i sut gellid ailgyfeirio cyllid o brosiectau newydd i gynnal a chadw ffyrdd presennol. Mae Llywodraeth Cymru wedi oedi cyhoeddi ei hymateb i'r adolygiad oherwydd y sefyllfa gyllidol ac economaidd sy'n dirywio.

58. Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor ar ddyfodol bysiau a threnau (Hydref 2022) y dylid defnyddio cyllid o brosiectau sydd wedi eu canslo ar gyfer trafniadaeth gynaliadwy a mesurau datgarboneiddio yn yr un rhanbarth. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor ond

dywedodd bod y cyllid sy'n cael ei glustnodi ar gyfer y cynlluniau presennol yn gyfyngedig.

59. Mewn ymateb i gwestiwn ar y mater hwn, esboniodd y Dirprwy Weinidog nad oedd y Llywodraeth yn rhagweld swm mawr o gyllid yn cael ei ryddhau yn y tymor byr oherwydd nad yw'r ffyrdd yn cael eu hadeiladu eto. Eglurodd y Gweinidog:

"the schemes that the roads review is looking at are schemes currently in development. The whole criteria was that we're not looking at schemes where shovels are in the ground—they're being built. So, the schemes we're looking at are not schemes that currently have much budget attached to them—they're mostly at the study stage."

Ôl-groniad cynnal a chadw priffyrdd

60. £185 miliwn yw cyllideb gyfalaf ddrafft 2023-24 ar gyfer "gweithrediadau rhwydwaith", sydd £5 miliwn yn llai na'r disgwyl.

61. Ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog, sonnir am sawl rhaglen ataliol sy'n cael eu gweithredu ar draws y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod y £1 biliwn o ôl-groniad a amcangyfrifir ar gyfer cynnal a chadw cyfalaf. Cyfeirir yn y papur tystiolaeth at greu rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr i fynd i'r afael â'r ôl-groniad a chynorthwyo i weithredu aildosrannu gofod ffordd ar gyfer teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen hon yn cael ei chyllido'n ddigonol ar hyn o bryd.

62. Wrth gyfeirio at yr ôl-groniad, dywedodd y Dirprwy Weinidog y gofynnwyd i'r adolygiad ffyrdd ystyried y mater hwn ac y byddai ganddo gryn dipyn i'w ddweud am y ffordd o ymdrin â chynnal a chadw. Ychwanegodd bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad, dan arweiniad Matthew Lugg, i ystyried sut mae gwaith cynnal a chadw yn cael ei gyllido. Dywedodd y byddai adroddiad yr adolygiad, ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo, yn cael ei gyhoeddi 'maes o law'.

Cynnal a chadw priffyrdd lleol

63. Mae cyllidebau blaenorol wedi dyrannu cyllid cyfalaf penodol ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd lleol (£20 miliwn yn 2021-2022). Fodd bynnag, dilëwyd y cyllid hwn y llynedd. Nid yw cyllideb ddrafft 2023-2024 yn cynnwys unrhyw gyllid penodol. Er bod y setliad llywodraeth leol wedi gweld cynnydd mewn cyllid cyfalaf cyffredinol, gall awdurdodau lleol flaenoriaethu prosiectau eraill. Gall

costau cynyddol prosiectau cyfalaf oherwydd chwyddiant achosi anawsterau hefyd.

64. Mae sawl digwyddiad diweddar wedi amlygu problemau gyda seilwaith priffyrdd lleol, gan gynnwys cau Pont y Borth. Mewn ymateb i gwestiwn ar y mater hwn, cydnabu'r Dirprwy Weinidog fod ein seilwaith yn heneiddio a bod angen mwy o waith cynnal a chadw. Mae'r her o gynnal a chadw priffyrdd lleol yn cael ei dwysáu gan ddigwyddiadau tywydd eithafol a achosir gan y newid yn yr hinsawdd a phwysau ariannol ehangach ar awdurdodau lleol.

Parthau 20 milltir yr awr

65. Wrth sôn am weithredu parthau 20 milltir yr awr ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, eglurodd y Dirprwy Weinidog:

“This is a key measure for our road safety strategy for reducing deaths and casualties on the road, which cost us, public services, a significant amount of money. We've published some research sponsored by Public Health Wales showing that, in the first year alone, they estimate...it'll save public services £100 million per year—three times the cost of introducing it”.

66. Dywedodd:

“we have taken money from the local transport fund to fully fund this—some £30 million this year and we had some money last year. There will be a little bit of money next year, but much less. These two years are the big years because we have to replace the road signs, and so on. So, as far as we're concerned, we're fully funding this change from central budgets and we're also confident that it'll bring a long-term saving.”

Ein barn ni

Rydym yn parhau i bryderu'n ddifrifol am effaith **tlodi trafndiaeth** yng Nghymru. Rydym yn nodi sylwadau'r Dirprwy Weinidog am bwysau cyllidebol ehangach ac yn cydnabod na ellid dilyn ymyriadau arfaethedig o ganlyniad.

Mae tlodi trafndiaeth yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau demograffig, gan gynnwys pobl anabl, pobl hŷn a menywod. Rydym yn ailadrodd y pryderon a fynegwyd yn ein hadroddiad ar fysiau a rheilffyrdd y bydd yr argyfwng costau byw yn gwaethygu'r sefyllfa hon.

Cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gap ar bris teithiau bysiau yn Lloegr am dri mis o fis Ionawr 2023. Mae TrC wedi cyflwyno gostyngiad ar brisiau tocynnau trenau am gyfnod cyfyngedig. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i archwilio pob cyfle i leihau prisiau teithio i leddfu effaith yr argyfwng costau byw ar ddefnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

O ran **isadeiledd rheilffyrdd**, rydym yn croesawu cyfraniad o £50 miliwn drwy gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y Deyrnas Unedig, fydd yn cael arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Dirprwy Weinidog yn hael yn ei asesiad o'r cyllid hwn. Mewn gwirionedd, mae'n hynod o fychan o gymharu â'r cyllid a gollodd Cymru oherwydd penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig na ddylem dderbyn arian canlyniadol o'r cynllun HS2.

Rydym yn cytuno bod **TrC** wedi esblygu'n gyflym i'w sefyllfa bresennol, a'r sefyllfa honno heb setlo o bell ffordd. Mae'r mudiad wedi gorfod addasu a bod yn ystwyth yn ystod cyfnod heriol. O ran tryloywder ei chyllideb, rydym yn disgwyl gweld y 'gwelliant o ddifri' a addawyd gan y Gweinidog. Y llynedd, fe wnaethom gynnal ein sesiwn graffu flynyddol gyntaf gyda TrC. Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r broses graffu flynyddol hon drwy gydol tymor y Senedd hon. Edrychwn ymlaen at ddal TrC i gyfrif am ei berfformiad.

O ran **datgarboneiddio trafndiaeth**, rydym yn croesawu dyrannu cyllid i'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel lawn. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein darbwylo y bydd tua £35 miliwn ar gyfer 2023-24 a 2024-2025 yn ddigon i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru. Byddem yn ddiolchgar am fwy o wybodaeth am yr hyn mae'r Dirprwy Weinidog yn disgwyl y bydd yn cael ei gyflawni gyda'r cyllid hwn, sut bydd yn cael ei ddosbarthu a pham mae o'r farn ei fod yn ddigonol.

Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer datgarboneiddio tacsis a cherbydau hurio preifat. Byddem yn ddiolchgar pe byddai'r Dirprwy Weinidog yn rhannu'r cynllun gweithredu hwn gyda'r Pwyllgor. Dywedwyd yn yr ymateb y byddai'r Cynllun Gweithredu yn destun ymgynghoriad fel rhan o'r Bil arfaethedig gan Lywodraeth Cymru ar dacsis a cherbydau hurio preifat. Byddem yn ddiolchgar pe byddai'r Dirprwy Weinidog yn esbonio'r llinell amser ar gyfer y gwaith hwn.

Rydym yn croesawu'r sylwadau gan y Dirprwy Weinidog am y cyfleoedd posibl i ddatgarboneiddio sy'n deillio o ddiwygio bysiau a Bil Bysiau arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Nodwn resymau'r Dirprwy Weinidog pam nad yw cyllid ar gyfer **teithio llesol** wedi cynyddu i'r lefel a nodwyd yn flaenorol. Y llynedd, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y byddai'r cyllid uwch yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu piblinell o gynlluniau, ond nid yw'r cyllid wedi cynyddu i'r lefel arfaethedig oherwydd diffyg capasiti mewn awdurdodau lleol. Rydym o'r farn ei bod yn ddarbodus newid y dull dan amgylchiadau o'r fath, ond rydym yn pryderu am y diffyg cysylltiad ymddangosiadol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn y maes polisi hwn.

Yn ogystal, rydym yn pryderu bod y 'biblinell' cynlluniau mewn perygl. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y byddai TrC yn rhan o 'ddiwygiad dwfn' o fecanweithiau darparu teithio llesol. Byddem yn gwerthfawrogi manylion am beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol, pryd dylem ddisgwyl gweld canlyniadau o'r gwaith hwn, ac a fydd angen cyllid ychwanegol. Yn ogystal, hoffem gael sicrwydd gan y Dirprwy Weinidog y bydd y gwaith hwn yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n deillio o'r diffyg capasiti mewn awdurdodau lleol.

Nodwn sylwadau'r Dirprwy Weinidog ar yr **adolygiad ffyrdd** ac rydym yn ei annog i gyhoeddi adroddiad y grŵp sy'n ymgymryd â'r gwaith hwnnw cyn gynted â phosibl.

Rydym yn ailadrodd ein pryderon ynghylch yr amcangyfrif o £1 biliwn o ôl-groniad o ran **cynnal a chadw priffyrdd**. Cyfeiriodd cyflwyniad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru at raglen Adnewyddu Asedau Mawr, nad yw'n cael ei chyllido. Wrth ymateb i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft y llynedd, dywedodd Llywodraeth Cymru fod panel annibynnol wedi ei sefydlu i adolygu'r rhaglen. Ar ôl ystyried adborth, dywedodd y ceisid cymeradwyaeth i ddechrau ar y gwaith paratoi. Roedd yr adborth i fod i gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2022. Byddem yn ddiolchgar am fanylion am statws y gwaith hwn, gan gynnwys y rhesymau dros y diffyg cynnydd ymddangosiadol ers Ebrill 2022.

O ran **cynnal a chadw priffyrdd lleol**, nodwn fod problemau cynyddol ledled Cymru. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn deall maint y broblem ac yn datblygu cynllun i fynd i'r afael â hi. Byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad gan y Dirprwy Weinidog ar y mater hwn.

Rydym yn nodi'r £30 miliwn o gyllid sydd ar gael i'r awdurdodau lleol i gyflwyno **parthau 20 milltir yr awr**. Byddem yn ddiolchgar am sicrwydd gan y Dirprwy Weinidog bod yr arian hwn yn ddigonol i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a'r arbedion a ragwelir yn sgil y polisi. Dylai hyn gynnwys esboniad o'r

ffordd y penderfynodd Llywodraeth Cymru ar y swm sydd ei angen i weithredu'r polisi.

Argymhellion

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i archwilio pob cyfle i leihau prisiau teithio er mwyn lleihau effaith yr argyfwng costau byw ar ddefnyddwyr trafniadaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllideb TrC yn dryloyw, yn adlewyrchu ei holl gyfrifoldebau a swyddogaethau a'i bod ar gael i'r cyhoedd mewn da bryd.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o wybodaeth am yr ymyriadau polisi penodol y mae'n disgwyl eu darparu drwy'r £35 miliwn a ddyrannwyd i'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel lawn.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei gynllun gweithredu ar gyfer datgarboneiddio tacsis a cherbydau hurio preifat gyda'r Pwyllgor, a nodi llinell amser ar gyfer ymgynghori a gweithredu.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o wybodaeth am 'ddiwygio'n ddwfn' ddulliau darparu teithio llesol, gan gynnwys manylion ynghylch pryd gellir disgwyl canlyniadau ac a fydd angen cyllid ychwanegol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth benodol am y rôl mae disgwyl i TrC ei chwarae.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o wybodaeth am statws y rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr a'r rhesymau dros y diffyg cynnydd ymddangosiadol ers mis Ebrill 2022.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i asesu'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw priffyrdd lleol a datblygu cynllun i fynd i'r afael ag ef.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd bod y £30 miliwn o gyllid ar gyfer cyflwyno parthau 20 milltir yr awr yn ddigonol i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a'r arbedion a ragwelir, ac egluro sut penderfynwyd ar y swm cyllido.

6. Bioamrywiaeth

67. Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd y Senedd argyfwng natur, a galwodd am dargedau sy'n gyfreithiol rwydol i atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Yn COP15, uwchgynhadledd bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2022, cytunwyd ar fframwaith bioamrywiaeth byd-eang newydd, yn cynnwys nodau a thargedau i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth yn fyd-eang ac adfer ecosystemau naturiol. Mae'r targed "30x30" yn elfen hanfodol o'r fframwaith newydd, sy'n ceisio diogelu 30% o ardaloedd daearol, dyfrol mewndirol, arfordirol, a morol erbyn 2030. Yn ogystal, mae'r fframwaith newydd yn golygu bod angen integreiddio bioamrywiaeth yn llawn ar draws pob maes polisi.

68. Wrth wneud cais am wybodaeth am y gyllideb, holodd y Pwyllgor sut yr adlewyrchwyd datganiad Llywodraeth Cymru am yr argyfwng natur yn y gyllideb. Cyfeiriwyd at "Dasglu Bioamrywiaeth" ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog, sy'n "ategu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ymwreiddio bioamrywiaeth ym mhopeth a wnawn". Eglurwyd bod bioamrywiaeth prif ffrwd yn cael arian drwy raglen "sy'n canolbwyntio ar bobl, ar ein systemau ac ar dreialu atebion arloesol oddi mewn ac oddi allan i Lywodraeth Cymru."

69. Dywedodd y Gweinidog fod gwaith yn parhau i ymgorffori'r argyfwng natur ar draws Llywodraeth Cymru a datblygu rhaglen integredig drwy'r Llywodraeth gyfan. Ychwanegodd y canlynol:

"We're still in some discussion about the governance for that, but I think we're nearly there now to do that, so that we can make sure that we're co-ordinating efforts not just in my MEG, my portfolio budget, but across the Government".

70. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pham nad oedd mwy o gynnydd wedi ei wneud, cyfaddefodd y Gweinidog na pharatowyd yn ddigonol ar ei gyfer. Fodd bynnag, roedd hyn bellach yn cael sylw. Aeth y Gweinidog ymlaen i egluro ei dyhead am bolisi bioamrywiaeth:

"We have a number of very specific budget programmes at the moment but we don't have that overarching thing, and that's one of the things we want to work up...So, the budget is sufficiently flexible for us to begin the process of that, but we will obviously have to look again once we've got the review done".

71. Roedd 'archwiliad dwfn' diweddar Llywodraeth Cymru yn nodi themâu ac argymhellion allweddol ar gyfer camau penodol i'w rhoi ar waith yng Nghymru i gyrraedd y targed 30x30 ac i integreiddio bioamrywiaeth ac adferiad natur ar draws portffolios a chyrrff cyhoeddus. Dywedir ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog fod Tasglu Bioamrywiaeth yn rhoi hwb i'r gwaith hwn. Bydd cyllid yn cael ei neilltuo i weithredu'r argymhellion a'r camau gweithredu o'r archwiliad dwfn.

72. Esboniwyd ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog, "Er mwyn inni allu cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur erbyn 2030, bydd angen darparu cyllid digonol – mae cyllideb wedi cael ei dyrannu i gynorthwyo i ddatblygu model cyllid arloesol ar gyfer y dyfodol." Wrth ymateb i gwestiwn ar y model cyllid, esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn rhan o grŵp byd-eang sy'n edrych ar wahanol fodelau cyllido ar gyfer hyn yn dilyn COP15. Byddai'n ysgrifennu at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth.

Targedau bioamrywiaeth

73. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu "dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth". Dywedir y bydd targedau bioamrywiaeth sy'n gyfreithiol rwydol yn cael eu harchwilio yn sgil y fframwaith byd-eang newydd. Dywedwyd ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog y byddai'r gwaith hwn yn cael ei "ddwysáu" yn dilyn COP15, a dyrannwyd "cyllideb ar gyfer darparu'r cymorth technegol ac academaidd angenrheidiol er mwyn sicrhau y defnyddir dull cadarn, seiliedig ar dystiolaeth wrth ddatblygu targedau CAMPUS [cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol]."

74. Dywedodd y Gweinidog nad oedd cyllid wedi ei neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer datblygu targedau statudol, ond roedd sawl grŵp o arbenigwyr, gan gynnwys un sy'n cael ei arwain gan y cyn Weinidog Amgylchedd yn Llywodraeth Cymru, Jane Davidson, yn gweithio'n wirfoddol ar hyn a materion cysylltiedig eraill.

75. Mae fframwaith COP15 yn gofyn i lywodraethau sefydlu mecanweithiau effeithiol ar gyfer cynllunio, monitro, adrodd, ac adolygu. Rhaid diweddarau strategaethau a chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth cenedlaethol er mwyn cyd-fynd â'r fframwaith. Yn achos Llywodraeth Cymru, bydd hyn yn golygu diwygio ei Pholisi Adnoddau Naturiol a'i Chynllun Gweithredu Adfer Natur. Mewn datganiad yn y Cyfarfod Llawn ymrwymodd y Gweinidog i greu cynllun

gweithredu bioamrywiaeth strategol newydd, ac mae ei phapur tystiolaeth ar y gyllideb yn dangos y bydd hyn yn digwydd yn 2023-24.

76. Dywedodd fod grŵp monitro gorchwyl a gorffen wedi ei sefydlu i ddylunio fframwaith monitro a dadansoddi effeithiol i Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fodloni ei gofynion adrodd rhyngwladol, yn ogystal â datblygu'r nodau. Dywedodd ei bod yn disgwyl y byddai galwadau o bosibl am glustnodi cyllideb ar gyfer y gwaith hwn o fewn y flwyddyn nesaf, ond nad ydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw eto. Daeth y Gweinidog i'r casgliad a ganlyn:

“we've been immensely fortunate in having people with serious expertise who've been prepared to give us a lot of time and effort to put this together, because they're very concerned, and they want to help us do this.”

Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur

77. Pwysleisir ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog pa mor bwysig yw'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, rhaglen gyllido tair blynedd a lansiwyd yn 2021, o ran helpu i gyrraedd y targed 30x30. Mae'r Gweinidog wedi dweud yn y gorffennol bod y BEL 'Galluogi Adnoddau Naturiol' yn darparu'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Mae dyraniadau cyfalaf ar gyfer y BEL hwn wedi gostwng £1.4 miliwn yn y gyllideb ddrafft hon oherwydd ailflaenoriaethu yn y gyllideb.

Mynd i'r afael â bioamrywiaeth forol

78. Dywedir ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog bod disgwyl i ddyraniadau cyllideb i weithredu prosiectau Cynlluniau Gweithredu Ardaloedd Morol Gwarchoddedig "gyfateb i ddyfarniadau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol". Mae'r Pwyllgor hwn eisoes wedi mynegi pryder am gyllid parhaus asesiadau cyflwr nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog ei bod yn ymchwilio i'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur fel dewis posibl ar gyfer cyllido'r gwaith hwn.

79. Yn dilyn yr ymchwil dwfn bioamrywiaeth, cyhoeddodd y Gweinidog broses ymgysylltu cyn-ymgyngori ar ddynodi Parth Cadwraeth Morol Cymru er mwyn gwella rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru. Fe wnaeth y Gweinidog gydnabod bod oedi wedi bod o ran gweithredu'r gwaith hwn. Cadarnhaodd y swyddog a oedd gyda'r Gweinidog nad oes dyraniad cyllid penodol ar gyfer gwaith ar Barthau Cadwraeth Morol, ond y byddai'r costau'n

cael eu talu drwy'r dyraniad cyffredinol o £1.9 miliwn ar gyfer bioamrywiaeth morol.

Disodli rhaglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd

80. Cafodd Cymru £3 miliwn ar gyfartaledd bob blwyddyn o raglen gyllido LIFE yr Undeb Ewropeaidd rhwng 2014 a 2019. Fodd bynnag, ers 2021, nid oes cyllid newydd wedi bod ar gael drwy'r rhaglen. Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod trafodaethau yn parhau ymhlith pedair gwlad y Deyrnas Unedig ynglŷn â rhaglen a chyllid newydd. Dywedodd y Gweinidog:

"we've allocated £1.2 million in 2023-24 to match fund the final two LIFE EU projects. They always require match funding, and we've been happy to do that. They're in the Nature Networks programme's deep dive recommendations for the protected-site network there."

81. O ran cynllun i gymryd ei le, dywedodd y Gweinidog fod trafodaethau gyda DEFRA yn parhau, ac nad oedd hi'n edrych yn debygol y byddai cynllun yn ei le ar gyfer 2023-24. Daw'r Gweinidog i'r casgliad:

"you know, I'm sorry to echo the First Minister here, but this is very much part of the broken promise about 'not a penny lost', because it is lost, and it's a real, real problem for us. There's no way that we can match, out of our own resources, the £10 million that was spent on the last two projects, both of which I had the privilege to open."

Ein barn ni

Roeddem yn falch o glywed ymrwymiad y Gweinidog i bwysigrwydd bioamrywiaeth. Dylai'r fframwaith byd-eang y cytunwyd arno yn **COP15** roi'r hwb i Lywodraeth Cymru ddatblygu dull gweithredu sy'n ymateb i anghenion penodol byd natur yng Nghymru.

Rydym yn gwerthfawrogi gonestrwydd y Gweinidog ynghylch diffyg cynnydd o ran ymgorffori'r argyfwng natur ym mholisi Llywodraeth Cymru. Nodwn sylwadau'r Gweinidog bod gwaith ar hyn yn dal i fynd rhagddo i ddatblygu rhaglen "lywodraeth gyfan", yn debyg i'r dull ar gyfer sero net. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn a byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad cynnar ar gynnydd, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer rhoi'r dull ar waith.

Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i greu **cynllun gweithredu bioamrywiaeth strategol** newydd yn ystod 2023-24. Byddem yn falch o gael rhagor o

wybodaeth am hyn. Byddem hefyd yn falch o gael esboniad o'r effaith mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd £1.4 miliwn o ostyngiad yn y BEL 'Galluogi Adnoddau Naturiol' yn ei chael. Dylai hyn gynnwys cyfeirio at brosiectau, rhaglenni neu ymyriadau penodol.

Roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r **targed 30x30** yng Nghymru. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog y bydd hyn yn her sylweddol, a rhaid cynyddu'r momentwm yn gyflym. Byddem yn falch o gael yr wybodaeth diweddaraf am gynnydd o fewn y chwe mis nesaf ar sut mae'r gwaith hwn yn datblygu. Bydd y gwaith hwn yn golygu bod angen sgiliau arbenigol, a byddem yn ddiolchgar am sicrwydd gan y Gweinidog bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau staffio, a'r cymysgedd cywir o sgiliau, i gyflawni'r agenda hwn.

Rydym wedi bod yn galw am **gryn amser am dargedau statudol** ar gyfer bioamrywiaeth. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog ar y mater hwn. Byddem yn ddiolchgar am fanylion am y llinell amser ar gyfer cyflwyno targedau a'r cyfrwng deddfwriaethol fydd yn cael ei ddefnyddio i'w cyflwyno.

Esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau'r broses **Parth Cadwraeth Morol**. Rydym yn croesawu'r cam pwysig hwn, yn enwedig gan ein bod ni'n disgwyl i brosiectau ynni ar y môr ddatblygu'n fawr yn y blynyddoedd nesaf. Yn y gorffennol, rydym wedi mynegi pryder am yr adnodd staffio yn adran forol Llywodraeth Cymru. Byddem yn ddiolchgar am sicrwydd gan y Gweinidog a Chyfarwyddwr yr adran, os oes angen, bod digon o staff i ddatblygu'r gwaith hwn. Ymhellach, nodwn nad oes cyllideb benodol yn cael ei dyrannu ar gyfer y gwaith hwn. Byddem yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn cadarnhau faint o'r £1.9 miliwn o'r dyraniad cyffredinol ar gyfer bioamrywiaeth morol sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y gwaith hwn.

Yn olaf, rhannwn siom y Gweinidog ynghylch y ffaith bod rhaglen **LIFE yr Undeb Ewropeaidd** wedi dod i ben. Nodwn ei sylwadau ei bod yn annhebygol y bydd cynllun newydd yn ei le ar gyfer 2023-24. Byddem yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn rhoi gwybod i ni am y cynnydd o ran datblygu'r cynllun i gymryd ei le.

Argymhellion

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad o fewn y chwe mis nesaf ar gynnydd wrth ddatblygu rhaglen 'llywodraeth gyfan' ar gyfer yr argyfwng natur, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer gweithredu.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa effaith fydd y £1.4 miliwn o ostyngiad yn y BEL 'Galluogi Adnoddau Naturiol' yn ei chael ar brosiectau, rhaglenni neu ymyriadau penodol.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad o fewn y chwe mis nesaf ar gynnydd y targed 30x30 yng Nghymru, gan gynnwys sicrwydd bod digon o adnoddau staffio sydd â'r cymysgedd cywir o sgiliau i gyflawni'r agenda hwn. Dylai hyn gynnwys rhagor o wybodaeth am gynnydd tuag at ddatblygu modelau ariannol i gyflawni'n targedau 30x30.

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion am y llinell amser ar gyfer cyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol a'r cyfrwng deddfwriaethol fydd yn cael ei ddefnyddio i'w datblygu.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd bod digon o staff i fwrw ymlaen â'r broses Parth Cadwraeth Morol a chadarnhau faint o'r £1.9 miliwn sydd yn y dyraniad cyffredinol o ran bioamrywiaeth morol a glustnodwyd ar gyfer y gwaith hwn.

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad ar ei gwaith yn ystyried a all y Rhaglen Rhwydweithiau Natur gyllido asesiadau o gyflwr nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd tuag at ddatblygu cynllun yn lle rhaglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd ar ôl iddi ddod i ben yn 2023-24.

7. Coedwigaeth a choetiroedd

- 82.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu coedwig genedlaethol.
- 83.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed newydd i blannu 43,000 hectar o goed newydd erbyn 2030 (bron i 5,000 hectar y flwyddyn), gan godi i 180,000 hectar erbyn 2050 (dros 6,000 hectar y flwyddyn) i helpu i gyrraedd sero net.
- 84.** Yn gynnar yn 2021, arweiniodd y Dirprwy Weinidog archwiliad dwfn i gael gwared ar y pethau sy'n rhwystro plannu coed. Mae'r argymhellion yn cynnwys cynllun cyllido newydd ar gyfer greu coetiroedd a strategaeth i gydlynu cyflenwadau pren ac adeiladu.
- 85.** Mae'r gyllideb ddrafft yn dangos £2.9 miliwn o gynnydd mewn cyllid refeniw (o £5.2 miliwn yn 2022-23 i £8.1 miliwn yn 2023-24) a £14 miliwn o gynnydd mewn cyllid cyfalaf (o £9 miliwn yn 2022-23 i £23 miliwn yn 2023-24) ar gyfer y BEL 'Coedwigaeth'.

- 86.** Yn ôl papur tystiolaeth y Gweinidog:

“Bydd yr arian hwn [yn y gyllideb] yn cynorthwyo i ddatblygu'r Goedwig Genedlaethol, yn cynnwys greu coetiroedd newydd a chyfoethogi coetiroedd sy'n bodoli eisoes trwy gyfrwng rowndiau pellach y Grant Buddsoddi mewn Coetir; bydd yn darparu cyllid ar gyfer saith o swyddogion cyswllt ar gyfer y Goedwig Genedlaethol, a fydd yn gweithio gyda thirfeddianwyr ledled Cymru; a bydd hefyd yn ariannu'r gwaith o greu Coedwigoedd Bychain.”

- 87.** Dywed hefyd bod £32 miliwn dros dair blynedd wedi ei ymrwymo i'r "cynlluniau newydd ar gyfer greu coetiroedd, a lansiwyd ym mis Awst 2022", a cheir ar ddeall mai dyma'r cynllun Grantiau Bach i Greu Coetir a'r Grant Creu Coetir.
- 88.** Esboniodd y Gweinidog fod yr £1.1 miliwn o ostyngiad mewn refeniw o gymharu â chynlluniau blaenorol yn ganlyniad i'r ymarfer ail-flaenoriaethu i ryddhau cyllid o fewn portffolios ar gyfer ei adleoli ar draws y Llywodraeth. Fodd bynnag, dywedodd ei bod hi'n hyderus y bydd y dyraniad yn fodd o gyrraedd lle mae hi'n gobeithio bod.
- 89.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod cyrraedd y targed ar gyfer greu coetir yn dibynnu'n llwyr ar berchnogion tir yn gwneud cais am grantiau i wneud hyn, felly bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda thirfeddianwyr ar draws Cymru

gyfan. Dywedodd bod y cynlluniau grant newydd yn gyfle gwych i ffermwyr, yn enwedig o ran achub y blaen ar y cynllun ffermio cynaliadwy, a bod y swyddogion cyswllt Coedwig Cenedlaethol yn darparu cymorth ar gyfer hyn.

Ein barn ni

Mae cynnydd mewn gorchudd coetiroedd yn hanfodol os yw Cymru am gyflawni ei hymrwymadau o ran y newid yn yr hinsawdd. Mae cyfraddau plannu coed yng Nghymru wedi bod yn wael ers degawdau. Er bod y ffigyrau diweddaraf yn dangos cynnydd yn y cyfraddau rhwng 2019 a 2022, maent yn dal yn druenus o brin o'r lefel sydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru i gyrraedd ei thargedau ar gyfer creu coetiroedd. Er ein bod ni'n croesawu'r cynnydd yn y dyraniad ar gyfer 2023-24, rydym yn cydnabod na fydd cyrraedd y targed yn bosibl drwy gyllid cyhoeddus yn unig.

Yn llythyr diweddar y Gweinidog atom, esboniodd fod y Gweithgor Cyllid Coetir wedi dechrau ar y gwaith o ystyried modelau i ddenu buddsoddiad preifat sy'n osgoi peri anfantais i gymunedau gwledig ac amharu ar batrymau presennol perchnogaeth tir. Dywedodd y bydd prosiectau peilot i brofi dulliau o fuddsoddi preifat yn cael eu cyflwyno yn y tymor byr. Byddem yn croesawu cael manylion pellach am y prosiectau hyn.

Y llynedd, fe lansiodd Llywodraeth Cymru ei menter Fy Nghoeden, Ein Coedwig a oedd yn darparu coeden i bob cartref i'w phlannu neu blannu coeden ar eu rhan. Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2022-23, fe ofynnem i Lywodraeth Cymru ddarparu diweddariad o fewn 6 mis ar y diddordeb yn y fenter. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog y byddai hi'n gwneud hyn mewn 12 mis pan oedd data mwy ystyrlon ar gael. Byddem yn croesawu diweddariad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru newydd (erbyn diwedd 2021) a Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren (erbyn diwedd 2022), ac ymgynghori ar strategaeth hirdymor ar gyfer y Goedwig Genedlaethol (ym mis Ionawr 2022). Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, nid oedd wedi cyflawni'r ymrwymadau hyn. Bu cynnydd sylweddol yn y cyllid ar gyfer coedwigaeth ac mae cael y cynlluniau a'r strategaethau hyn ar waith yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cyllid wedi ei dargedu mewn ffordd gydlynol sy'n sicrhau gwerth am arian. Rydym yn cwestiynu a yw'r oedi cyn cyhoeddi'r dogfennau hyn wedi codi oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau yn Llywodraeth Cymru, ynteu am ryw reswm arall. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r materion hyn yn ddiweddarach yn nhymor

y Senedd hon fel rhan o'n hymchwiliad i'r gwaith o gyflawni polisiau coedwigaeth. Yn y cyfamser, hoffem i'r Gweinidog esbonio'r rheswm dros yr oedi a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni i'w cyhoeddi.

Argymhellion

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y nifer sydd wedi manteisio ar y fenter Fy Nghoeden, Ein Coedwig yn 2022-23, gan gynnwys cyfanswm y gwariant, nifer y coed a blannwyd, ac unrhyw asesiad a wnaed o'i heffaith ar agweddau'r cyhoedd tuag at y newid yn yr hinsawdd.

Argymhelliad 26. Dylai'r Gweinidog roi manylion pellach am y prosiectau peilot i brofi dulliau buddsoddi preifat mewn coedwigaeth. Dylai hyn gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer datblygu a chyflawni'r prosiectau hyn a chyflwyno'r dysgu dilynol.

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog esbonio'r rheswm dros yr oedi cyn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru newydd (a oedd i fod i gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2021) a'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren (a oedd i fod i gael ei chyhoeddi erbyn diwedd 2022), ac o ran yr ymgynghoriad ar strategaeth hirdymor ar gyfer y Goedwig Genedlaethol (a oedd i fod i ddigwydd ym mis Ionawr 2022). Dylai'r Gweinidog hefyd roi diweddariad ar amserlenni ar gyfer cyhoeddi pob un o'r rhain.

8. Llywodraethu amgylcheddol

90. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno Bil i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru yn ystod tymor y Senedd hon.

91. Tan y bydd y corff llywodraethu parhaol yn ei le, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu mesurau dros dro i ddiogelu'r amgylchedd ('mesurau dros dro'), dan oruchwyliaeth Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ('yr Asesydd Interim'). Dywedir ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog, "Daw'r costau a ysgwyddir mewn perthynas â'r Asesydd Diogelu'r Amgylchedd o gyllideb £45,000 a neilltuir ar gyfer swyddogaethau Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru".

Tystiolaeth gan y Gweinidog

92. Eglurodd y Gweinidog fod £480,000 wedi ei ddyrannu ar gyfer datblygu polisi ac ymchwil allanol i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer corff llywodraethu parhaol. Ychwanegodd na fwriedir i hyn fod yn rhaglen fuddsoddi na ffrwd refeniw ar gyfer y corff llywodraethu.

93. Yn adroddiad y Pwyllgor ar fesurau diogelu'r amgylchedd dros dro (Medi 2022), cododd bryder bod cyfyngiadau capasiti ac adnoddau o fewn rôl yr Asesydd Interim wedi arwain at oedi wrth adrodd. Galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad brys o adnoddau'r Asesydd Interim. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad ac ymrwymo i adrodd yn ôl wrthym am y canfyddiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog am yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o adnoddau ar gyfer yr Asesydd Interim, dywedodd y Gweinidog ei bod yn trafod gyda'r Asesydd Interim ynghylch ei chanfyddiadau. Ychwanegodd y Gweinidog ei bod hi'n hyderus bod digon o hyblygrwydd yn y gyllideb ddrafft i ymateb i ganlyniad yr adolygiad os yw'n canfod bod angen adnoddau ychwanegol.

Ein barn ni

Rydym yn siomedig, bedwar mis ers ein galwad am adolygiad 'brys', nad oes penderfyniad wedi ei wneud eto ynghylch a ddylid cynyddu adnoddau ar gyfer yr Asesydd Interim. Cododd ein galwad am adolygiad, yn rhannol, yn sgil pryder fod cyfyngiadau capasiti ac adnoddau wedi arwain at oedi cyn i'r Asesydd Interim adrodd i Lywodraeth Cymru yn dilyn ymchwiliadau i gwynion a wnaed am weithrediad cyfraith amgylcheddol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'n glir a yw'r Asesydd Interim wedi cyflwyno yr un

adroddiad. Rydym yn awyddus i bwysleisio nad beirniadaeth o'r Asesydd Interim yw hyn, yn hytrach ymgais i ddeall y sefyllfa bresennol, gan gynnwys a yw diffyg capasiti ac adnoddau yn llesteirio cynnydd.

Rydym eisoes wedi egluro bod y mesurau diogelu amgylcheddol interim yn sylweddol brin o'r hyn sydd ei angen ar Gymru, sef corff llywodraethu sy'n gweithio'n llawn ac yn meddu ar ddigon o adnoddau. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd amlwg tuag at ddatblygu cynigion ar gyfer corff o'r fath, ac ar gyfer targedau bioamrywiaeth statudol, dros y flwyddyn i ddod.

Mewn ymateb i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2022-23, dywedodd y Gweinidog wrthym fod swyddogion wedi gwneud gwaith cychwynnol i asesu'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu a chynnal corff llywodraethu amgylcheddol newydd. Mae ystyriaeth o'r fath wedi cynnwys dadansoddiad cymharol o gyrff o faint tebyg ac sy'n meddu ar gyfansoddiad tebyg ar draws y Deyrnas Unedig. Hoffem i'r Gweinidog rannu canfyddiadau'r gwaith hwn gyda ni i helpu i hwyluso ac ategu gwaith craffu ar gyllidebau drafft yn y dyfodol.

Argymhellion

Argymhelliad 28. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar:

- ganfyddiadau'r gwaith cychwynnol i asesu'r costau sydd ynghlwm â sefydlu a chynnal corff llywodraethu amgylcheddol parhaol i Gymru, a
- chanlyniad ei thrafodaethau gyda'r Asesydd Interim ar ofynion adnoddau ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol.

Argymhelliad 29. Dylai'r Gweinidog egluro a yw'r Asesydd Interim wedi cyflwyno unrhyw adroddiad yn dilyn ymchwiliadau i gwynion a wnaed ynghylch gweithredu cyfraith amgylcheddol. Os nad oes adroddiadau wedi eu cyflwyno, dylai'r Gweinidog nodi ei dealltwriaeth o'r rheswm dros yr oedi parhaus, yn benodol, a yw hynny oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau, ynteu ryw reswm arall.

9. Cyfoeth Naturiol Cymru

94. Cyllidir Cyfoeth Naturiol Cymru gan gyfuniad o gyllid craidd ar gyfer ei swyddogaethau sylfaenol a chyllid grant ar gyfer prosiectau ychwanegol. Nid yw ei chyllideb wedi cynyddu ers y llynedd. Ers ei sefydlu, mae cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael ei lleihau fwy na thraean.

95. Wrth i'w gyllideb leihau, mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo dyletswyddau ychwanegol iddo. Yn ddiweddar fe wnaeth Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal adolygiad 'sylfaenol' o adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â swyddogaethau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Dywedodd y Gweinidog bod yr adolygiad wedi ei gwblhau, a'i fod wedi canfod bwlch yng nghyllid Cyfoeth Naturiol Cymru.

96. Roedd trafodaethau am sut i fynd i'r afael â'r diffyg ariannol yn parhau. Dywedodd y Gweinidog bod sawl ffactor, gan gynnwys rhwymedigaethau pensiwn ac amrywiad mewn incwm pren, wedi achosi'r diffyg. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog:

“we want them to budget as if the gap was not there, and that we will be able to cover that gap off over the next year as far as we can.”

97. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n gobeithio y byddai'r atebolrwydd pensiwn yn cael sylw yn fuan, ac y byddai hi'n adrodd i'r Pwyllgor.

98. Cyfeiriodd y Gweinidog at ymgynghoriad diweddar ynglŷn â'r fffioedd a'r taliadau a godir ar gyfer gwasanaethau Cyfoeth Naturiol Cymru. Dywedodd ei bod hi'n gobeithio symud at adennill costau'n llawn lle mae hynny'n bosibl. Ychwanegodd:

“if we're asking NRW to do things, which we're not allowing them to full-cost recover for, then we need to be upfront about that in their budget. So, I'm just trying to get into a very different place, in terms of how we perceive these things, and then we can understand with them what the income looks like, what the service that's delivered for that income looks like, and then what the demands from us look like. And that's a wholly different place to where we were when I started in this portfolio two years ago.”

Trwyddedu morol o'r dechrau i'r diwedd

99. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am roi trwyddedau morol ar ran Gweinidogion Cymru. Ym mis Rhagfyr 2021, awgrymodd adolygiad dwfn y Dirprwy Weinidog o bolisi ynni adnewyddadwy gynnal adolygiad cynhwysfawr, o'r dechrau i'r diwedd, o drwyddedu morol, cydsynio, a phrosesau cynghori a throsglwyddo pwerau cynghori ar y môr o'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i Cyfoeth Naturiol Cymru. Dyrannwyd £300,000 o gyllideb 2022-23 ar gyfer yr adolygiad hwn.

100. Cadarnhaodd y Gweinidog bod yr adolygiad wedi ei gwblhau ac y byddai'r canfyddiadau 'lefel uchel' yn cael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2023. Nid oedd yr adolygiad wedi nodi problemau sylfaenol gyda'r broses, ond roedd gwelliannau pendant wedi cael eu hawgrymu, ynghyd â chyfres o argymhellion strategol. Byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu camau sy'n deillio o'r adolygiad. Byddai'n ystyried cyllideb debygol a goblygiadau hynny o ran adnoddau ar yr adeg briodol.

Ein barn ni

Ers sawl blwyddyn, mae'r Pwyllgor hwn a'i ragflaenydd wedi mynegi pryderon am allu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau yn effeithiol oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol heb ddyrannu cyllid cymesur i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Roedd yr "**adolygiad Ilinell sylfaen**" a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymyriad a oedd i'w groesawu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i'r broses hon, wedi cydnabod o'r diwedd fod bwlch yng nghyllid Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae mwy nag un ffactor yn achosi'r diffyg ariannol, ond mae atebolrwydd pensiwn yn broblem hanesyddol ac roedd yn bryder pan grëwyd Cyfoeth Naturiol Cymru bron i ddegawd yn ôl. Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi cadarnhau bod y mater hwn yn cael sylw, a byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad ar y cynnydd yn fuan.

Nodwn ymrwymiad y Gweinidog y bydd trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i lenwi'r **bwlch ariannol** heblaw am yr atebolrwydd pensiwn. Rydym yn nodi y bydd dyraniad cyllidebol gwastad flwyddyn ar ôl blwyddyn Cyfoeth Naturiol Cymru, i bob pwrpas, yn golygu gostyngiad cyllid mewn termau real unwaith y bydd chwyddiant yn cael ei ystyried. Byddem yn ddiolchgar am fanylion gan y Gweinidog am sut a phryd mae hi'n disgwyl i drefniadau gael eu gweithredu i

fynd i'r afael â'r bwlch cyllido, gan gynnwys effaith pwysau chwyddiant ar Cyfoeth Naturiol Cymru.

Edrychwn ymlaen at ganlyniad yr ymgynghoriad ar **ffioedd a chostau** Cyfoeth Naturiol Cymru, ond rydym yn sylwi fod cryn anniddigrwydd wedi bod ynglŷn â rhai o'r cynigion. Byddem yn gwerthfawrogi pe bai modd i ni ddeall yn gynnar beth yw cynlluniau'r Gweinidog a Cyfoeth Naturiol Cymru am symud y cynigion yn eu blaenau.

O ran yr **adolygiad trwyddedu morol o'r dechrau i'r diwedd**, edrychwn ymlaen at gyhoeddi'r canfyddiadau ym mis Chwefror. Byddem yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn cyhoeddi esboniad o sut bydd canlyniadau'r adolygiad yn cael eu gweithredu, ochr yn ochr â'r canfyddiadau.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal **sesiwn graffu flynyddol** gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, a bydd yn parhau â'r gwaith hwn drwy gydol tymor y Senedd.

Argymhellion

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion am sut a phryd bydd bwlch cyllido Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael sylw. Dylai hyn gynnwys diweddariad ar y cynnydd o ran datrys y broblem hanesyddol o ran atebolrwydd pensiwn.

Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi, ochr yn ochr â chanfyddiadau'r adolygiad trwyddedu morol o'r dechrau i'r diwedd, esboniad ynghylch sut bydd canlyniadau'r adolygiad yn cael eu gweithredu.

10. Gwastraff

101. Mae strategaeth economi gylchol Llywodraeth Cymru, Mwy nag Ailgylchu, yn nodi ei hamcan i Gymru ddod yn genedl ddiwastraff erbyn 2050, ynghyd â thargedau allweddol tuag at gyflawni hynny. Mae'r targedau ar gyfer 2025 yn cynnwys o leiaf 70% o ailgylchu a dim gwastraff yn cael ei yrru i safleoedd tirlenwi.

102. Mae'r camau allweddol yn Mwy nag Ailgylchu yn cynnwys gwaharddiad ar y plastigau untro sy'n cael eu taflu yn fwyaf cyffredin, diwygio Cyfrifoldeb Cynhyrchedd Estynedig a chyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd.

103. Mae disgwyl i ddiwygiadau'r Cyfrifoldeb Cynhyrchedd Estynedig gael eu gweithredu o 2024. Mae disgwyl i fusnesau a fydd yn cael eu heffeithio ddechrau adrodd ar ddata pecynnu o 1 Ionawr 2023 fel cam paratoawl.

104. Ar 20 Ionawr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig ('DAERA') yng Ngogledd Iwerddon [ymateb ar y cyd](#) i ymgynghoriad 2021 ar gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes. Mae'r ymateb yn nodi cwmpas y Cynllun Dychwelyd Ernes⁴ a'r camau nesaf tuag at weithredu⁵, ymhlith pethau eraill.

105. Mae'r gyllideb ddrafft yn dangos £1.6 miliwn o ostyngiad yn y dyraniad refeniw (o £36.8 miliwn ar gyfer 2022-23 i £35.2 miliwn ar gyfer 2023-24) a £20 miliwn o gynnydd mewn dyraniad cyfalaf (o £40 miliwn ar gyfer 2022-23 i £60 miliwn ar gyfer 2023-24) ar gyfer y BEL 'Effeithlonrwydd Adnoddau ac *Economi Gylchol*'.

106. Mae tystiolaeth y Gweinidog yn tynnu sylw at "gynnydd yn y gyllideb fel y gellir parhau i gyflawni'r strategaeth Mwy nag Ailgylchu, a fydd yn ceisio adeiladu ar sylfeini ein system ailgylchu wych er mwyn cynorthwyo i bontio tuag at economi gylchol lle bydd adnoddau'n parhau i gael eu defnyddio". Esbonnir, "Elfen allweddol o'r cymorth hwn yw cynnydd mewn cyllid cyfalaf fel y gellir

⁴ Bydd y Cynllun Dychwelyd Ernes yn gynllun 'cynhwysfawr', h.y. bydd yn cynnwys cynwysyddion diodydd hyd at 3 litr o faint. Bydd yn cynnwys poteli PET, a chaniau dur ac alwminiwm. Yng Nghymru, bydd hefyd yn cynnwys poteli gwydr (yn unol â'r Cynllun Dychwelyd Ernes presennol yn yr Alban).

⁵ Y nod yw bod y rheoliadau mewn grym erbyn diwedd 2023, gyda dyddiad cychwyn o 1 Hydref 2025 ac i'r Sefydliad Rheoli Adneuo gael ei benodi erbyn haf 2024.

rhoi'r gwelliannau seilwaith angenrheidiol ar waith i bontio tuag at economi gylchol, sy'n cyfateb i rywfaint yn llai na hanner cyfanswm allyriadau Cymru".

Tystiolaeth gan y Gweinidog

107. Cadarnhaodd y Gweinidog, er mai'r bwriad yw cyflwyno rheoliadau ar gyfer y Cynllun Dychwelyd Ernes yn 2023, na fydd y cynllun yn weithredol tan fis Hydref 2025. Esboniodd fod cyllid wedi ei ddyrannu ar gyfer 2023-24 i gynnal asesiadau effaith a pharatoi'r memorandwm esboniadol i ategu'r rheoliadau.

Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r £20 miliwn o gynnydd mewn dyraniad cyfalaf i gyflawni'r gwelliannau seilwaith sydd eu hangen i gynorthwyo'r broses o drosglwyddo i economi gylchol.

Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2022-23, fe wnaethom bwysleisio'r angen dybryd i fwrw ymlaen â chynigion ar gyfer Cynllun Dychwelyd Ernes, yr oedd eisoes ei angen yn fawr bryd hynny. Rydym yn falch, felly, fod manylion y Cynllun Dychwelyd Ernes wedi eu cyhoeddi o'r diwedd. Serch hynny, ni fydd y cynllun yn weithredol tan fis Hydref 2025, sydd bron i dair blynedd arall yn y dyfodol. Byddem yn croesawu manylion unrhyw asesiad a wnaed o'r buddsoddiad seilwaith sydd ei angen i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r cynllun.

Argymhellion

Argymhelliad 32. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am fanylion unrhyw asesiad a wnaed o'r buddsoddiad seilwaith sydd ei angen i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Dychwelyd Ernes. Dylai hefyd egluro a yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dyraniad cyllideb ar gyfer 2023-24, ac os felly, sut mae hynny'n cael ei wneud.

11. Dŵr a Llifogydd

108. Mae'r gyllideb ddrafft yn dangos £5.7 miliwn o gynnydd mewn cyllid refeniw (o £38.1 miliwn yn 2022-23 i £43.8 miliwn yn 2023-24) a £5 miliwn o gynnydd mewn cyllid cyfalaf (o £44 miliwn yn 2022-23 i £49 miliwn yn 2023-24) ar gyfer y BEL 'Rheoli Perygl Llifogydd a Darparu Polisi Dŵr'. O'r dyraniad cyfalaf, mae £34 miliwn ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordirol, gyda'r £15 miliwn sy'n weddill ar gyfer ansawdd dŵr.

109. Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Hydref 2020) yn nodi ei pholisiau hirdymor ar gyfer rheoli llifogydd, yn ogystal â'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd dros y 10 mlynedd nesaf i wella cynllunio a pharatoi ar gyfer newid yn yr hinsawdd, ac addasu i'r newid hwnnw.

110. Ym mis Mai 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o adroddiadau am lifogydd eithafol, gan gwrdd ag ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio.

Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol

111. Nodir fel a ganlyn ym mhapur y Gweinidog:

"Bydd y cyllid ychwanegol yn helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth hon, yn ogystal â chyfrannu at ymrwymadau ein Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithredu i gynyddu'r cyllid cyfalaf a fuddsoddwn mewn llifogydd a gwella cydnherthedd cenedlaethol. Gwelir hyn yn ein buddsoddiad mwyaf erioed o ran amddiffyn rhag llifogydd, lle aethom ati yng nghyllideb 2022-23 i ymrwymo mwy na £214m dros gyfnod o dair blynedd (Cyfalaf a Refeniw). Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi ein Hawdurdodau Rheoli Risgiau i gyflwyno amddiffynfeydd newydd a gwell, ynghyd â mynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw a mân waith ar asedau presennol, ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd, cynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a llunio rhagolygon, yn ogystal â rhybuddio, mapio a modelu perygl llifogydd".

112. Dywedir hefyd y bydd y cyllid "yn helpu i gyflawni cynlluniau yn y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol a fydd, ar ôl iddynt gael eu cwblhau, yn lleihau perygl llifogydd a/neu erydu arfordirol i fwy na 15,200 o gartrefi a busnesau. Bydd hyn yn helpu i gyflawni bron i 35% o ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu, sef ariannu ffyrdd ychwanegol o amddiffyn rhag llifogydd ar gyfer mwy na 45,000 o gartrefi".

Mynd i'r afael â llygredd dŵr

113. Ym mis Gorffennaf, sefydlodd y Gweinidog y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd (y Tasglu), i werthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd storm yng Nghymru. Mae wedi nodi pum maes ar gyfer newid a gwella y mae angen gweithredu ymhellach arnynt.

114. Ym mis Mai 2022, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai "angen cwmpasu costau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau gweithredu sy'n deillio o waith y Tasglu".

115. Dywedir ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi rhaglen waith aml-flwyddyn hyblyg a ddyluniwyd i leihau nifer y cyrsiau dŵr sy'n methu â chyrraedd statws ecolegol da. Y bwriad yw darparu'r cyllid angenrheidiol i Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith wedi ei flaenoriaethu gan ddefnyddio meini prawf penodol.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

116. Wrth sôn am y costau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynlluniau gweithredu sy'n deillio o waith y Tasglu, esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn cydlynu yn hytrach na chyllido'r gwaith hwn. Dywedodd y byddai disgwyl i aelodau'r Tasglu dalu costau.

117. Esboniodd y Gweinidog fod gwaith wedi mynd rhagddo i ddatblygu cynllun gweithredu traws-sector er mwyn mynd i'r afael ag ansawdd afonydd. Rhagwelwyd y byddai hyn yn cael ei gytuno yn yr uwchgynhadledd ansawdd afonydd nesaf ar ddechrau mis Chwefror 2023. Dywedodd y Gweinidog, unwaith y bydd y cynllun gweithredu wedi ei gytuno y bydd y gwaith o edrych ar y gofynion o ran y gyllideb yn dechrau.

Ein barn ni

Llifogydd

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae rhannau o Gymru, unwaith eto, wedi cael eu llethu gan lifogydd, gydag adroddiadau am fwy na 80 eiddo wedi eu heffeithio, a thrafferthion sylweddol ar y rheilffyrdd a'r ffyrdd. Gyda thywydd eithafol yn debygol o ddigwydd yn amlach o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, mae disgwyl i'r risg o lifogydd gynyddu, a'r gost o reoli hynny yn yr un modd.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi buddsoddi'n helaeth mewn diogelu rhag llifogydd dros y blynyddoedd, ac wedi ymrwymo i fuddsoddi £214 miliwn yn ychwanegol rhwng 2022-23 a 2024-25. Er gwaethaf hyn, mae adolygiadau ac adroddiadau diweddar am lifogydd, gan gynnwys rhai Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Pwyllgor Annibynnol ar Lifogydd ac Erydu Arfordirol a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn awgrymu bod angen cynnydd sylweddol mewn buddsoddiad er mwyn cadw i fyny â'r newid yn yr hinsawdd.

Byddem yn croesawu esboniad ynghylch a ddylai adolygiad annibynnol o adnoddau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ac adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar ofynion buddsoddi hirdymor ar gyfer cynnal asedau llifogydd fod wedi dylanwadu ar ddyraniadau yn y gyllideb ar gyfer 2023-24, ac os felly, ym mha fodd.

Wrth gytuno ar ein blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, fe wnaethom ymrwymo i adolygu'r cynnydd tuag at gyflawni'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, gan ystyried adroddiad adran 18 Cyfoeth Naturiol Cymru (yr oedd disgwyl y byddai'n cael ei gyhoeddi yn hydref 2022). Rydym yn siomedig bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gohirio ei adroddiad tan hydref 2023 oherwydd pwysau ar y gweithlu.

Ansawdd dŵr

Yn ôl data diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru, mae llai na hanner dyfroedd Cymru wedi sicrhau statws ecolegol da. Gyda Llywodraeth Cymru yn parhau i fod ymhell o gyrraedd ei tharged i adfer iechyd afonydd Cymru erbyn 2027, mae'n amlwg bod angen camau gweithredu ychwanegol, a hynny'n fuan.

Er ein bod ni wedi ein calonogi wrth glywed am raglen waith Cyfoeth Naturiol Cymru, mae diffyg eglurder am faint o gyllid fydd ar gael ar gyfer costau cyflawni. Hoffem i'r Gweinidog ystyried hyn.

Edrychwn ymlaen at glywed rhagor o fanylion am y cynllun gweithredu traws-sector ar ansawdd afonydd. Rydym yn disgwyl y bydd digon o gyllid ar gael i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r cynllun.

Argymhellion

Argymhelliad 33. Dylai'r Gweinidog egluro a ddylid adolygu adnoddau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol annibynnol, a sut mae adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar ofynion buddsoddi hirdymor ar gyfer cynnal asedau llifogydd wedi dylanwadu ar ddyraniad y gyllideb ar gyfer 2023-24.

Argymhelliad 34. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar:

- lefel y cyllid fydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu ei raglen waith a gynlluniwyd i leihau nifer y cyrsiau dŵr sy'n methu â bodloni statws ecolegol da,
- unrhyw asesiad sy'n cael ei wneud o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r cynllun gweithredu traws-sector ar ansawdd afonydd, a
- sut mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2023-24.